# Ysbrydoli i Weithio Dwyrain Cymru - Astudiaeth Achos 1

Mae Cleient A yn byw â chyflwr iechyd o'r enw syndromau Ehlers-Danlos.

Mae syndromau Ehlers-Danlos yn grŵp o gyflyrau etifeddol prin sy'n effeithio ar feinwe gyswllt. Mae meinweoedd cyswllt yn darparu cynhaliaeth mewn croen, tendonau, ligamentau, pibellau gwaed, organau mewnol ac esgyrn.

Mae Cleient A wedi bod yn cael cymorth gan Ysbrydoli i Weithio ers ychydig o amser. Yn ogystal â sicrhau bod y cwsmer yn cael gwasanaeth llawn wedi'i deilwra i'w ddiddordebau a'i obeithion ar gyfer y dyfodol, fel y mae pob cwsmer yn ei gael, roedd yn rhaid i ni roi ystyriaeth i'r cyflwr hwn. Roedd hyn yn sicrhau cynaliadwyedd y broses o ddod o hyd i'r gyflogaeth iawn, lle y gallai Cleient A ffynnu a dechrau ar yrfa hirdymor.

Mae Cleient A bellach wedi dod o hyd i gyflogaeth lawn-amser yng ngyrfa ei breuddwydion.

Gweler yr astudiaeth achos isod. Cafodd ei hysgrifennu gan Gleient A. J

Ymunais ag Ysbrydoli i Weithio ym mis Hydref y llynedd ar ôl treulio cryn dipyn o amser heb fod mewn gwaith nac addysg oherwydd salwch parhaus, a heb fod yn hyderus iawn wrth adael y tŷ oherwydd COVID.

Cynhaliodd Tom ein holl sesiynau dros y ffôn, a gwnaeth hynny i mi deimlo'n gartrefol a helpu gyda'm gorbryder.

Helpodd fi i gwtogi ar y meysydd yr oedd arnaf eisiau mynd iddynt a phenderfynu mai Gwaith Ieuenctid oedd y cynnig mwyaf deniadol i mi.

Tynnodd Tom fy sylw at swyddi dan hyfforddiant a oedd ar gael gyda Chyngor Caerdydd, gan fy nghefnogi i ysgrifennu fy nghais, drafftio CV, a pharatoi ar gyfer cyfweliad. Roedd hyn yn hynod fuddiol i mi gan fy mod wedi cael trafferth yn y gorffennol â hyder a chyfweliadau.

Roedd y swydd yr oeddwn wedi gwneud cais amdani hefyd yn cynnwys gweithio gartref tra bo COVID yn dal i fod yn broblem, felly roedd hyn wir wedi tawelu fy ngorbryder o wybod y gallwn hyfforddi a dechrau'r swydd heb fy rhoi fy hun mewn perygl.

Byddwn yn argymell y gwasanaeth hwn i unrhyw un arall sy'n ei chael yn anodd dod o hyd i waith gan iddo fod o fudd mawr i mi.  Dyma fy stori.

**Pontio o fod yn Gleient y Cyngor i fod yn Weithiwr Prosiect**

Ar y dechrau'n deg roedd arnaf angen llawer o help o ran sut i chwilio am waith. Dechreuodd y cyfan ym mis Rhagfyr 2019 lle cwrddais â'r tîm I Mewn i'r Gwaith yn y Clwb Gwaith yn y Llyfrgell Ganolog. Aeth aelodau'r tîm ati i ddiweddaru fy CV ac, ar ôl ystyried fy ngwybodaeth, cefais fy rhoi mewn cysylltiad â'r maes gwirfoddoli.

Cysylltodd fy Mentor Gwirfoddoli â mi ym mis Ionawr 2020, lle'r aethom ati i nodi fy rhwystrau i weithio, a dechreuais wirfoddoli yn yr HWB.

Yn fuan, ymunais ag Ysbrydoli i Weithio i gael cymorth ychwanegol. Yma, cyflwynodd fy Mentor fi i gynifer o gyfleoedd cyflogaeth a oedd yn gweddu i'm sgiliau a'm cryfderau. Cefais wybod mwy am yr hyn yr oedd y gwasanaeth a'r prosiect yn ei gynnig, er enghraifft cyllid, cyrsiau, cyfleoedd hyfforddi a chysylltiadau â sefydliadau eraill. Soniais fod gennyf ddiddordeb mewn gweithio gyda phobl ifanc ond fy mod hefyd yn hoffi gwaith gweinyddol. Cefais fy nghyflwyno i rolau gweinyddol a chlercol dros dro CardiffWorks, a chefais help i lenwi'r ffurflen gais. Roedd y mentora un i un yn ddwys, a chefais lawer o arweiniad a chyngor ynghylch chwilio am swydd a llenwi ceisiadau. Aeth fy mentor ati hefyd i'm paratoi ar gyfer fy nghyfweliadau, a bu i hynny wella fy hyder yn gyffredinol. Yn ogystal â chwilio am swydd, cefais lawer o gymorth ac anogaeth emosiynol. Ar adegau, pan nad oeddwn wedi llwyddo cam y cyfweld, byddwn yn cael fy atgoffa bod yna ragor o gyfleoedd i ddod a bod pob cyfweliad yn brofiad dysgu.

Ar ôl ymgysylltu sawl gwaith â'm mentor, ac yn dilyn profiadau gwirfoddol/gwaith blaenorol, soniais am fy niddordeb mewn gweithio gyda'r ieuenctid. Cefais wybod am y swyddi gwag niferus ym maes gwaith ieuenctid a oedd yn cael eu hysbysebu gan Gyngor Caerdydd, ac rwyf wedi cael llawer o help gyda'r broses ymgeisio. Roedd fy mentor yn wirioneddol awyddus i'm cynnig ar gyfer rôl y Mentor Cyflogaeth Cymunedol, sef lleoliad tri mis trwy CardiffWorks. Gwelodd fy mentor rinweddau ynof a fyddai'n gweddu i'r rôl, a rhoddodd lawer o gymorth i mi ymlaen llaw i'm paratoi ar gyfer y cyfweliad.

Roeddwn yn hapus iawn i gael rôl y Mentor Cyflogaeth Ieuenctid, ac, am fy mod eisoes yn teimlo'n rhan o'r tîm, roeddwn yn teimlo bod y broses bontio i fod yn weithiwr prosiect yn gwbl ddidrafferth. Roedd fy rheolwr yn rhagorol wrth egluro rôl y swydd a'r hyn a oedd i'w ddisgwyl yn ystod y cyfnod cynefino. Roeddwn yn teimlo fy mod yn cael gofal ond hefyd yn rhydd i hedfan yn rhydd a gweithio ar fy menter fy hun. Rhoddwyd yr holl offer i mi a chefais fy ngwiriad DBS trwy CardiffWorks. Dysgais lawer yn ystod fy nghyfnod cysgodi o dair wythnos, lle y cefais gyfle i dreulio'r diwrnod gyda mentoriaid gwahanol mewn hybiau gwahanol. Roedd pob mentor yn cynnig gwybodaeth a chyngor gwerthfawr ac yn hapus iawn i ateb fy holl gwestiynau. Dysgais lawer am y prosiectau gwahanol, megis Bright Futures, MILES a Butetown. Roeddwn wrth fy modd yn dod i adnabod y tîm a dysgu am eu dulliau gwahanol o fentora eu cleientiaid.

Yn y pen draw, dechreuais gael fy llwyth achosion fy hun a derbyn atgyfeiriadau a drosglwyddwyd o fentoriaid eraill. Roedd yn frawychus i ddechrau, ond, o achos i achos, deuthum yn fwy hyderus o ran fy nhechnegau mentora. Os oedd gennyf

unrhyw gwestiynau, roeddwn bob amser yn rhydd i ofyn i fentoriaid eraill am eu cyngor ynghylch darparwyr hyfforddiant, cyllid, dyddiadau hyfforddi a chyrsiau. Trwy gydol fy lleoliad rwyf wedi gallu helpu cleientiaid y Cyngor i oresgyn eu rhwystrau i gyflogaeth, sy'n rhoi boddhad mawr oherwydd bod hynny'n rhywbeth yr oeddwn i fy hun yn cael anhawster ag ef. Mae'r newid o fod yn gwsmer i fod yn weithiwr prosiect wedi bod yn daith gyffrous, ac rwy'n hynod o ddiolchgar am gael cyflawni'r cyfle hwn diolch i Ysbrydoli i Weithio. Ni allwn fod wedi gofyn am well cyfle.